

Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 2

Cofnodion y Cyfarfod

Dyddiad: Dydd Gwener 30 Medi 2022

Yn bresennol:

Cadeirydd: Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

Aelodau: Matt Downie (Crisis), Liz Davies KC (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Gaerfyrddin), Sam Parry (Cyngor Conwy), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

Hefyd yn bresennol: Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis).

1. Croeso, cyflwyniadau a chofnodion

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r panel i ail gyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol, ac estynnodd wahoddiad i bob aelod o'r panel gyflwyno eu hunain.

2. Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a'r cynllun gwaith (ar ôl derbyn sylwadau)

Cylch Gorchwyl: cytunwyd nad oedd unrhyw sylwadau pellach i'w cyflwyno ynghylch y Cylch Gorchwyl.

Cynllun gwaith: Nodwyd bylchau, gan gynnwys:

- Llety dros dro, gan gynnwys addasrwydd llety dros dro a pharhaol. Roedd yr awgrymiadau ar leoliad cyfarfod yn cynnwys lleoli gyda thrafodaethau ar fynediad at dai.
- Addasrwydd. Roedd awgrym ar leoliad cyfarfod yn y cyfarfod ar fynediad at dai.
- Troi allan. Mae'r lleoliad cyfarfod ar gyfer hyn i'w gadarnhau. **(Nodyn ar ôl y cyfarfod, mae Troi Allan ar yr agenda yn awr ar gyfer cyfarfod 3).**
- Gorfodi/rheoliadau i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu cyflawni'n briodol. Awgrymwyd y dylid ystyried hyn yng nghyfarfod olaf y panel.

Ymgysylltiad Rhanddeiliaid: Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Y ffordd orau i aelodau'r panel a'u rhwydweithiau gefnogi Crisis fel y sefydliad cynnull i sicrhau'r ymgysylltiad gorau gydag amserlen dynn.
- Y posibilrwydd o gynnal sesiynau yn llai aml pan fydd cynigion i 'ymateb i', a'r defnydd o gwestiynu cyfarwyddol i wneud y mwyaf o fewnbwn er enghraifft fel y gwelwyd ar gyfer Grŵp Adolygu Atal yr Alban.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu syniadau ar ymgysylltiad rhanddeiliaid, grwpiau ar y cyrion a'r sector statudol.
- Y bwriad i aelodau'r panel ddod yn 'arweinwyr thematig' mewn rhai meysydd er mwyn darparu arbenigedd ychwanegol a chynorthwyo Crisis i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu
Jordan Brewer / Abi Renshaw	Crisis i ddiwygio cofnodion cyfarfod 1 i adlewyrchu'r sylwadau pellach.
Jordan Brewer	Crisis i weithredu wrth adlewyrchu ar adborth aelodau'r panel i'r Cylch Gorchwyl a'r Cynllun Gwaith.
Jordan Brewer	Darparu papur ar ymgysylltiad rhanddeiliaid.

3. Diweddariad Llywodraeth Cymru

Rhoddodd HF ddiweddariad i'r panel ar waith cyfredol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Datblygu'r Papur Gwyrdd. Mae angen ystyried ymgysylltiad mewn ffordd effeithiol a manwl.
- Mae cynlluniau i gynnwys "digartref ac ar y stryd" o fewn categorïau "angen blaenoriaeth" cyfreithiol, ac mae deddfwriaeth dros dro arfaethedig yn destun ymgynghoriad ac a gyflwynir i'r Senedd ym mis Hydref. Anogir y panel i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Hannah Fisher	Yn niweddariad Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod nesaf, rhoi sylwadau ar: • Pa waith ymgysylltu sy'n cael ei gynllunio ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys plant a phobl ifanc	Y cyfarfod nesaf, 25.10.22

4. Trafodaeth ar y dyletswyddau atal a rhyddhad cyfredol o dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 – gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ar gyfer diwygio

Prif ffocws y cyfarfod hwn oedd dyletswyddau atal a rhyddhad yr awdurdod lleol. Byddai unrhyw achosion o droi allan yn cael eu hatal hyd at y trydydd cyfarfod neu'n hwyrach, er mwyn caniatáu mewnbwn mwy manwl cyn hynny.

Roedd y pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r drafodaeth fel a ganlyn:

a) Adnoddau a phwyntiau cyffredinol

- Gwahaniaethau o ran dulliau cyflawni ar draws awdurdodau lleol, Ers Covid-19, mae nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain i awdurdodau lleol wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'r gweithlu yn delio â nifer gynyddol o geisiadau.
- Nodwyd yn anecdotaidd bod rhai pobl sy'n profi digartrefedd yn annog swyddogion achos i'w symud drwy'r ddyletswydd a'u symud ymlaen i'r ddyletswydd derfynol oherwydd eu bod am gael cartref yn hytrach nag ymgysylltu â'r ddyletswydd atal. Disgrifiwyd y ddyletswydd i liniaru/atal fel gweithred gydbwysu.
- Cydnabyddiaeth o'r pwysau ar adnoddau gyda rhai swyddogion achos yn gyfrifol am 80+ o achosion.
- Cydnabyddiaeth bod awdurdodau lleol mewn rhai ardaloedd yn llwyddo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Gallai adnoddau a chyflenwad tai annigonol fod yn broblem, yn hytrach na deddfwriaeth wan.

- Gellid cymhwyso dyletswyddau ehangach i gyrff cyhoeddus eraill ac mae angen lefelau gwell o gydweithredu. Cydnabuwyd yr heriau gwleidyddol a logistaidd sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau ehangach hyn.
- Gwnaed awgrym i archwilio deddfwriaethau mewn meysydd eraill sy'n darparu i'r llwyth achosion mwyaf gael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau amgylchedd gweithio agored a diogel.
- Yr angen i gyflwyno newidiadau mewn camau mewn dull na fydd yn gorlwytho'r system. Mae'n bwysig peidio cyflwyno cynigion nad ydynt yn ystyried y pwysau presennol sy'n wynebu awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill.
- Nid yw'r dyletswyddau atal a rhyddhad presennol bob amser yn gweithio i grwpiau penodol, er enghraifft ffoaduriaid (sy'n aml yn wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd pan fyddant yn derbyn penderfyniad lloches cadarnhaol) a phobl heb hawl i gyllid cyhoeddus (nad ydynt yn gymwys).

b) Camau rhesymol

- Anghysondeb wrth gyflawni camau rhesymol, a all amrywio rhwng awdurdodau lleol a gweithwyr achos unigol.
- Diffyg gorfodaeth ynghylch camau rhesymol. Potensial i greu rhywfaint o orfodaeth neu graffu dros fathau penodol o ymyrraeth.
- A oes angen i'r Ddeddf fod yn fwy penodol ynghylch lefel ofynnol ar gyfer camau rhesymol? Gallai hyn warantu bod yn 'rhaid' i ymyriadau penodol fod ar gael.
- Trafodwyd y geiriad, gyda cheisiadau i ystyried manteision posibl newid i'r iaith (e.e. 'camau sy'n debygol o roi diwedd ar ddigartrefedd / atal digartrefedd', yn hytrach na 'camau rhesymol'). Cafwyd trafodaeth hefyd ar archwilio manteision cyflwyno'r darpariaethau sydd yn y canllawiau ar wyneb y ddeddfwriaeth, ac i newid y geiriad perthnasol o 'dylai' i 'rhaid'.
- Trafod a fyddai'r ddyletswydd rhyddhad yn parhau i fod yn berthnasol/gallai fod â goblygiadau gwahanol os argymhellir dileu angen blaenoriaeth.
- Codwyd cwestiwn ynghylch a allai cymorth mewnfudo fod yn gam rhesymol i leddfu digartrefedd. Mae cymhwyster yn thema fwy i'w thrafod gan y panel mewn cyfarfod yn y dyfodol gan ei fod yn ymwneud â chymysgedd cymhleth o ddeddfwriaeth y DU a phwerau cyfyngedig Llywodraeth Cymru.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Liz Davies	Ymhlith y meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol mae: • Unrhyw fanteision diriaethol o ddefnyddio geiriau/ymadroddion allweddol eraill yn nisgrifiad y ddeddfwriaeth o 'gamau rhesymol', yn Neddf Tai (Cymru) 2014. • A ellir ychwanegu unrhyw werth i'r camau rhesymol drwy gynnwys manylion o'r canllawiau i wyneb y ddeddfwriaeth (ehangu ar yr hyn sydd eisoes yn Adran 64).	Y cyfarfod nesaf, 25.10.2022

	• Unrhyw gynseiliau deddfwriaethol ar lwythi gwaith tryloyw a diogel, o fewn yr ardal dai a thu hwnt. • Dyfodol y ddyletswydd rhyddhad yn y dyfodol os diddymir angen blaenoriaeth. • Y dulliau o orfodi camau rhesymol, gan gynnwys y posibilrwydd o ysgogi prosesau adolygu yn gynharach o fewn y 56 diwrnod.	
--	---	--

c) Estyniad o 56 diwrnod i 6 mis

Trafododd y panel estyn y 'fffenestr' 56 diwrnod ar gyfer dyletswyddau atal. Cafwyd cefnogaeth eang gyffredinol i hyn gan y mwyafrif o aelodau'r panel, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o angen i liniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol pe gwneir yr argymhelliad hwn:

Roedd y gefnogaeth i ddiddymu/ estyn yn cynnwys:

- Gallai estyniad o 56 diwrnod i 6 mis leihau'r pwysau ar awdurdodau lleol pan fydd cyfnodau o argyfwng yn digwydd
- Cyflwynwyd 56 diwrnod fel darpariaeth ymarferol. Mae'r canllawiau'n datgan yn glir mai dyna'r terfyn i weithredu, ac nid yr amser i ddechrau gweithredu, ond yn aml caiff ei drin fel yr olaf.
- Nid yw cael 56 diwrnod ar wyneb y ddeddfwriaeth yn ddefnyddiol oherwydd gall awdurdodau lleol ddehongli hyn fel gorfod aros hyd at y pwynt 56 diwrnod i ddechrau gweithredu, a all fod yn wrthgynhyrchol i atal gweithredol. Mae hyn er gwaethaf cael arweiniad clir ar y pwynt hwnnw.
- Gallai cyflwyno terfyn o 6 mis greu risgiau hefyd. Awgrymodd aelod o'r panel y gallai'r cyngor nodi y dylid gweithredu heb gyfyngiad pan fydd rhywun yn wynebu'r risg o ddigartrefedd.
- Mae'r amserlen o 56 diwrnod yn anhyblyg oherwydd bydd y ddyletswydd rhyddhad yn dod i ben ar ddiwedd y 56 diwrnod. Dylai'r ddeddfwriaeth fod yn benagored a dylai gynnwys cyfnod isaf gofynnol y byddai'n hawdd ei newid o safbwynt cyfreithiol.

Bydd angen ystyried canlyniadau anfwriadol posibl wrth wneud argymhelliad ffurfiol:

- Gwnaed awgrym i newid y canllawiau er mwyn nodi'n glir nad oes terfyn amser o [56 diwrnod] pan fydd rhywun yn wynebu'r risg o ddigartrefedd.
- Mae angen dadansoddiad pellach o'r risgiau o gynyddu'r cyfnod o amser (hyd at chwe mis), a gallai adlewyrchu ar drafodaethau yn yr Alban gynorthwyo gyda hyn.
- Mae'n bwysig ystyried sut y gall, ac y dylai awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau sy'n atal digartrefedd yn gynharach, ymhell cyn 56 diwrnod, yn ogystal â sut mae ymyriadau penodol mewn deddfwriaethau a chanllawiau yn hyrwyddo hyn.
- Yn yr Alban, mae cynnig i estyn y ffenestr ar gyfer dyletswyddau o 56 diwrnod i 6 mis eisoes, yn yr [Adroddiad Adolygu Atal Digartrefedd](#).
- Gallai estyniad leihau'r pwysau ar awdurdodau lleol pan fydd cyfnodau o argyfwng yn digwydd, ond mae angen i'r adnoddau fod ar gael i gynghorau allu cyflawni mesurau atal yn gynharach.

- A ellid gosod dyletswyddau perthnasol ar y Swyddfa Gartref o dan ddyletswydd ddiwygiedig i gydweithredu/atgyfeirio?

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Liz Davies	Mae'r meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol yn cynnwys: • Opsiynau ar gyfer estyn y ddyletswydd i 6 mis. • Opsiynau i osod dyletswydd i atgyfeirio/cydweithredu ar y Swyddfa Gartref o ran ffoaduriaid sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd. • Y posibilrwydd o gynnwys dyletswydd gefnogi yn y ddyletswydd atal (a rhyddhad)?	Y cyfarfod nesaf, 25.10.2022

d) Methiant afresymol i gydweithredu

Roedd teimlad cryf gan fwyafrif y panel fod y rhan hon o'r deddfwriaeth yn anaddas, ei bod yn methu ag adnabod trawma, ac y gellid ei dileu. Codwyd y pwyntiau canlynol yn nhrefnadaeth y Panel:

- Mae methiant i gydweithredu wedi arwain at benderfyniadau/dulliau gweithredu nad ydynt wedi'u bwriadu yn ysbryd Deddf Tai (Cymru) 2014.
- A ellir defnyddio'r cysyniad trothwy uwch "gwrthodiad bwriadol ac afresymol i gydweithredu", fel yn fersiwn Saesneg y [Ddeddf Lleihau Digartrefedd](#)
- Er mwyn annog ymgysylltiad gyda chymorth, dyllid cynnwys cynigion lluosog sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol.
- Mae awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion gydweithredu ac ymateb mewn ffordd sydd wedi'i gosod ar eu cyfer, megis drwy lythyrau neu ar-lein. Efallai na fydd y sianeli hyn yn addas i bob unigolyn.
- Roedd y drafodaeth yn cysylltu yn ôl i estyn dyletswyddau atal digartrefedd i wasanaethau cyhoeddus eraill (i'w trafod mewn mwy o fanylder mewn cyfarfod diweddarach), gyda'r angen am fwy o gydweithrediad gan asiantaethau eraill er mwyn helpu pobl i gynnal cymorth, ac atal digartrefedd, er enghraifft gan feddygon teulu.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Liz Davies	Mae'r meysydd a fydd yn cynnwys cyngor cyfreithiol arbenigol yn cynnwys: • Diddymu/pennu trothwy uwch ar fethiant afresymol i gydweithredu. • Goblygiadau o ran gwrthod cynigion os caiff methiant i gydweithredu ei ddileu.	Y cyfarfod nesaf, 25.10.2022

e) Symleiddio deddfwriaeth

- Roedd cydnabyddiaeth bod deddfwriaeth ddigartrefedd gyfredol Cymru yn gymhleth i'w deall a'i llywio, a dylid ceisio sicrhau cyfleoedd i'w symleiddio.

- Bydd y panel yn edrych ar y gwersi y gallant eu dysgu o'r sefyllfa a'r cynigion yn yr Alban – mewn cyd-destun lle mae angen blaenoriaeth wedi'u diddymu – er mwyn hysbysu trafodaethau yn y cyfarfod nesaf, gan gynnwys y posibilïadau o symleiddio'r system.
- Cydnabuwyd yr un pryd, yr angen i gadw cofnodion manwl oherwydd y rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'n rhaid i ALL ddangos eu bod yn cydymffurfio â hwy, y gellir eu hystyried yn anhyblyg ac mewn tensiwn â'r dull hyblyg/person-ganolog a geisir gan y ddeddfwriaeth.
- Mae cymhlethdod y broses fiwrocraidd yn anodd i rai unigolion ei ddeall. Nid yw rhai yn ymwybodol y gallent gael cymorth, gan bwy ac ar ba gam. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn o hawl yn y pen draw yn ychwanegu at y pwysau sydd ar awdurdodau lleol, gan ei fod fel arfer yn argyfwng pan dynnir eu sylw at unigolion.

5. Trosolwg Arbenigwyr drwy Brofiad

Darparodd KD ddiweddariad ar waith Arbenigwyr drwy Brofiad. Roedd y themâu yn cynnwys:

- Pwysigrwyd y cartref cywir yn y lle cywir. Hyd yn oed os bydd awdurdodau lleol o'r farn eu bod wedi darparu cynnig dilyd, mae'n bosibl na fydd y cynnig cywir. E.e. mae'n bosibl nad yw'n briodol o ran oedran, gallai fod yn llety ymgasglu, neu mae'n bosibl nad yw'n addas i unigolyn sy'n agored i niwed neu sydd mewn adferiad. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'n rhaid i unigolyn dderbyn cynnig er mwyn ystyried eu bod yn cydweithredu, hyd yn oed os nad yw'r cynnig hwn bob amser yn addas ar eu cyfer. Diffiniad allweddol ar roi diwedd ar ddigartrefedd yw nad yw'n cael ei ailadrodd. Os cynigir llety anaddas, mae hyn yn rhoi'r unigolyn mewn perygl ac nid yw'n datrys eu digartrefedd.
- Gall, a dylai, ymyrraeth fod yn llawer cynharach - nid pan ddaw argyfwng.
- Roedd beirniadaeth a stigma yn thema allweddol, gydag unigolion yn credu nad oeddent yn haeddu neu nad oedd eu cyngor lleol yn eu credu yn eu hymateb uniongyrchol.
- Os bydd deddfwriaeth yn newid, mae'n rhaid i hyn adlewyrchu beth fydd hyn yn ei olygu i'r rhai sy'n derbyn cymorth. Mae'n rhaid i'r deddfwriaeth fod yn hawdd ei deall a'i llywio.
- Yn yr arolwg, dim ond 19% a ddywedodd eu bod wedi derbyn ymateb gwael wrth gysylltu â'u hawdurdod lleol. Mynegwyd y farn, er mai sampl gymharol fach yw hon, mae'n rhoi argraff fwy calonogol nag y gellid bod wedi'i ddisgwyl.
- Fodd bynnag, mynegwyd y farn bod pobl oedd â phrofiad byw, a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg ac yn y digwyddiadau, wedi mynegi empathi ar gyfer eu gweithwyr yn y cyngor. Roedd ganddynt ymwybyddiaeth eu bod wedi gwneud y gorau y gallent gyda'r hyn oedd ganddynt a theimlad eu bod wedi gwneud gwaith da ar y cyfan. Roedd ganddynt ddealltwriaeth unigol, gyda mwy o adnoddau ar gael yn y system, gallai'r canlyniad fod wedi bod yn wahanol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom ddydd Mawrth 25 Hydref 2022.